OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 40 (Cy.12)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*14 Ionawr 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*19 Ionawr 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 9(4) a 9(4A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynorthwywyr i Grwpiau Gwleidyddol) (Tâl) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyd-gyngor Cenedlaethol" ("*the National Joint Council*") yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol;

ystyr "Cynllun y Cyd-gyngor Cenedlaethol" ("*the National Joint Council's Scheme*") yw Cynllun Amodau Gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

3.—(1) Y pwynt a bennir at ddibenion adran 9(4)(a) o'r Ddeddf yw pwynt 44 ar y golofn gyflog ar y graddfeydd cyflog ar gyfer swyddogion awdurdod lleol a ymgorfforir yng Nghynllun y Cyd-gyngor Cenedlaethol.

(**1**) 1989 p.42.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(O.S. 1999/672) a paragraff 30(1) a (2)(a) o Atodlen 11 i y Deddf Llywodraeth Cymru 2006.